**Atodiad D - Enghraifft o lythyr yn gwahodd rhywun a amheuir o gamddefnydd i gyfweliad**

**Cyfeiriad yr Awdurdod Lleol**

**ENW a CHYFEIRIAD Y CYFLAWNWR A AMHEUIR**

Ffôn:

Ffacs:

Ein Cyf:

Eich Cyf:

Dyddiad:

**Annwyl (ENW)**

**Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**

**Deddf Cleifion Cronig a Phersonau Anabl 1970**

Yr wyf yn ysgrifennu ynghylch y Bathodyn Glas â'r rhif cyfresol **XXXXXXX**; a roddwyd gan **(YR AWDURDOD LLEOL)** i **(ENW DEILIAD Y BATHODYN)** o **(CYFEIRIAD DEILIAD Y BATHODYN)**. Ar **(DIWRNOD A DYDDIAD)** gwelwyd y bathodyn anabledd hwn yn cael ei arddangos mewn cerbyd modur **(GWNEUTHURIAD Y CERBYD)** a chanddo'r rhif cofrestru **(XXXXXX)**, tra'r oedd wedi'i barcio mewn man parcio ar gyfer deiliaid Bathodynnau Glas yn unig yn **(LLEOLIAD).**

Ar ôl cynnal gwiriad diogelwch ar gyfer y bathodyn, canfuwyd bod y deiliad gartref tra'r oedd y bathodyn anabledd yn cael ei ddefnyddio yn **(LLEOLIAD)**. Ar ôl ichi ddychwelyd i'r cerbyd hwn, gofynnodd swyddog o **(YR AWDURDOD LLEOL)** ichi gyflwyno'r bathodyn anabledd hwn i'w archwilio, gan fod gan y swyddog le i gredu nad oedd y bathodyn anabledd yn cael ei ddefnyddio gan ddeiliad y bathodyn. Rhoddwyd cyfle ichi ildio'r bathodyn anabledd tra'r oedd y mater yn destun ymchwiliad, ond gwrthodasoch y cyfle hwn. Felly arferodd y swyddog ei bŵer statudol i gadw'r bathodyn o dan adran 21(4D) o Ddeddf Cleifion Cronig a Phersonau Anabl 1970.

Ymddengys i'r awdurdod a'i rhoddodd nad oedd y bathodyn anabledd hwn yn cael ei ddefnyddio yn unol â gofynion Rheoliadau Personau Anabl (Bathodynnau ar gyfer Cerbydau Modur) 2000. Roedd y bathodyn yn cael ei ddefnyddio gennych chi yn y cerbyd uchod heb fod deiliad y bathodyn yn bresennol.

Honnir felly ichi, ar **(DIWRNOD A DYDDIAD)**, barcio cerbyd modur **(GWNEUTHURIAD Y CERBYD)** a chanddo'r rhif cofrestru **(XXXXXXX)** mewn man parcio Bathodyn Glas yn unig lle mae cyfyngiad "Deiliaid bathodynnau anabledd yn unig" mewn grym yn **(LLEOLIAD)**; a'ch bod wedi arddangos Bathodyn Glas â'r rhif cyfresol **(XXXXXX)** ac arno'r enw **(ENW DEILIAD Y BATHODYN)** heb fod deiliad y bathodyn yn bresennol. Roeddech felly'n defnyddio'r cerbyd uchod mewn amgylchiadau lle byddai consesiwn Bathodyn Glas wedi bod ar gael pe bai'r cerbyd hwnnw'n cael ei ddefnyddio gan y sawl y rhoddwyd y bathodyn iddo, yn groes i ddarpariaethau adran 117 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 ac adran 21 o Ddeddf Cleifion Cronig a Phersonau Anabl 1970.

Dyma gais ffurfiol ichi ddod i swyddfeydd **(YR AWDURDOD LLEOL)** am gyfweliad i drafod y drosedd honedig. Gan mai mater yw hwn lle gellid dwyn achos cyfreithiol troseddol, bydd y cyfweliad yn cael ei gynnal gyda 'rhybuddiad' a bydd recordiad sain yn cael ei wneud ohono yn unol â Chodau C a D o Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984.

Yr wyf wedi trefnu apwyntiad am y tro ar **(AMSER, DIWRNOD A DYDDIAD)**. Gofynnir ichi gysylltu â'r swyddfa hon erbyn **(DYDDIAD PRIODOL)** i ddweud a fyddwch yn bresennol yn y cyfweliad ai peidio. Os nad ydych yn ymateb, byddaf yn cymryd yn ganiataol na fyddwch yn bresennol. Os nad ydych yn gallu dod i'r cyfweliad ar y dyddiad a gynigiwyd, cysylltwch â mi i drefnu dyddiad neu amser gwahanol.

Ar ddiwrnod y cyfweliad, gofynnir ichi eich cyflwyno eich hun wrth dderbynfa **(YR AWDURDOD LLEOL)**, a gofyn am **(SWYDDOG YMCHWILIO)**.

Fe'ch cynghorir nad oes rhaid ichi ddweud dim mewn ymateb i hyn, ond gall niweidio eich amddiffyniad os na fyddwch chi'n sôn, wrth gael eich holi, am rywbeth y byddwch chi'n dibynnu arno nes ymlaen yn y Llys. Gall unrhyw beth yr ydych yn ei ddweud gael ei roi fel tystiolaeth.

Mae gennych hawl i ofyn am gyngor cyfreithiol, os ydych yn dymuno gwneud hynny. Awgrymaf eich bod yn dangos y llythyr hwn i'ch cynghorydd yn fuan.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, mae croeso ichi gysylltu â mi.

Yn gywir

ENW

Swyddog Ymchwilio Parcio

**YR AWDURDOD LLEOL A RODDODD Y BATHODYN**